CYNGOR TREF PONT-Y-CLUN

# HYSBYSIAD O ETHOLIAD

1. Cynhelir etholiad ar gyfer nifer y Cynghorwyr Cymuned a nodir ym mhob achos isod ar gyfer y ward a nodwyd yn y drefn honno:

| WARD | NIFER O GYNGHORWYR |
|---|---|
| Gorllewin Pont-y-clun | 1 |

2. Rhaid i bapurau enwebu gyrraedd y Swyddog Canlyniadau erbyn **4pm ddydd Gwener, 8 Tachwedd 2024** ar yr hwyraf.

3. Cewch gyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau yn 10-12 Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2BW rhwng 9am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o'r dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad yma (ac eithrio gwyliau'r banc). Mae hefyd modd anfon y papurau enwebu yn electronig drwy ddilyn y trefniadau sydd i'w gweld yn y datganiad isod.

4. Cewch gyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau naill ai yn 10-12 Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2BW neu'n electronig drwy eu hanfon i gwasanaethauetholiadau@rctcbc.gov.uk o'r dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad yma tan ddydd Gwener, 8 Tachwedd 2024.

5. Os bydd mwy nag un ymgeisydd, bydd yr etholiad yn cael ei gynnal: **Dydd Iau, 5 Rhagfyr 2024.**

6. Rhaid i geisiadau sydd i'w hychwanegu at y rhestr etholwyr er mwyn bwrw pleidlais yn yr etholiad yma gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyfeiriad isod erbyn **hanner nos ddydd Mawrth, 19 Tachwedd 2024**. Mae modd cyflwyno ceisiadau ar-lein: www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

7. Rhaid i geisiadau, newidiadau neu ddiddymiadau mewn perthynas â phleidleisiau drwy'r post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol isod erbyn **5pm ddydd Mercher, 20 Tachwedd 2024.**

8. Rhaid i geisiadau i fwrw pleidlais drwy ddirprwy yn yr etholiad yma gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol isod erbyn **5pm ddydd Mercher, 27 Tachwedd 2024.**

9. Os oes argyfwng meddygol yn codi, neu os ydy rhesymau gwaith/gwasanaeth yn golygu bod rhaid i chi wneud cais i fwrw pleidlais brys drwy ddirprwy yn yr etholiad yma, rhaid i'r rhesymau gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol isod erbyn **5pm ddydd Iau, 5 Rhagfyr 2024**. Rhaid bod yr argyfwng meddygol wedi codi ar ôl **5pm ddydd Mercher, 27 Tachwedd 2024**. I wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd gwaith/gwasanaeth rhaid bod yr unigolyn yn effro i'r ffaith nad oes hawl iddo fynd i'r orsaf bleidleisio ar ôl **5pm ddydd Mercher, 27 Tachwedd 2024**.


**Manylion Cyswllt y Swyddog Cofrestru Etholiadol**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
10-12 Heol Gelliwastad
Pontypridd
CF37 2BW
Rhif Ffôn: 01443 490100


Dyddiad: ddydd Iau, 31 Hydref 2024

**Andrew S Wilkins**
**Swyddog Canlyniadau**

Cyhoeddwyd ac argraffwyd gan y Swyddog Canlyniadau, 10-12 Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2BW

**Datganiad anfon yn electronig**

Rhaid i bapurau enwebu sy'n cael eu cyflwyno'n electronig gael eu hanfon yn unol â threfniadau sydd wedi'u nodi yn y datganiad yma.

- Mae **RHAID** cyflwyno papurau enwebu electronig i Enwebiadau@rctcbc.gov.uk. Os caiff papurau enwebu eu hanfon i unrhyw gyfeiriad e-bost arall, byddwn ni'n cymryd yn ganiataol eu bod nhw ddim wedi'u hanfon i'r Swyddog Canlyniadau ac felly fyddan nhw ddim yn cael eu derbyn.
- Anogir gwiriadau anffurfiol cyn cyflwyno'r papurau enwebu'n ffurfiol. Rhaid anfon gwiriadau anffurfiol i Enwebiadau@rctcbc.gov.uk dan y pennawd 'GWIRIAD ANFFURFIOL/INFORMAL CHECK'.
- Rydyn ni'n eich annog chi i gynnwys manylion cyswllt ychwanegol yng nghorff eich e-bost fel bod modd i staff y Swyddog Canlyniadau/Gwasanaethau Etholiadol gysylltu â chi pe bai angen trafod unrhyw beth.
- I sicrhau archwiliad clir o daith y papurau enwebu sydd wedi cael eu cyflwyno, dim ond un set o bapurau enwebu cyflawn a fydd yn cael ei derbyn o bob e-bost unigol.
- Mae modd atodi papurau enwebu cyflawn i e-bost ar ffurf dogfen Word, neu fel .pdf unig.
- Mae modd arwyddo papurau enwebu'n electronig, er enghraifft llofnod sydd wedi'i deipio.
- I gyflwyno papurau enwebu yn ffurfiol drwy e-bost, rhaid eu hanfon i Enwebiadau@rctcbc.gov.uk dan y pennawd 'CYFLWYNIAD FFURFIOL/FORMAL DELIVERY'.
- Unwaith i bapurau enwebu gael eu cyflwyno i Enwebiadau@rctcbc.gov.uk er mwyn eu hanfon yn ffurfiol, nid oed modd gwneud newidiadau ac nid oes modd eu dychwelyd.
- Mae hefyd modd anfon hysbysiadau o dynnu enwebiad yn ôl i Enwebiadau@rctcbc.gov.uk.
- Maint yr e-bost mwyaf mae modd ei anfon wrth gyflwyno enwebiadau ydy 30MB. Fydd unrhyw ffeiliau sy'n fwy na 30MB ddim yn cyrraedd y Swyddog Canlyniadau.
- Bydd neges awtomatig yn cael ei hanfon gan y Swyddog Canlyniadau ar ôl derbyn yr e-bost. **Dydy hwn ddim yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys**. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i ymgeiswyr a yw'n ystyried eu henwebiad yn un dilys.
- Ystyrir bod ffurflenni enwebu a hysbysiadau o dynnu enwebiad yn ôl wedi cyrraedd ar yr amser a gofnodir ar y cyfrifiadur a ddefnyddir gan y Swyddog Canlyniadau.
- Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn y ffurflenni enwebu a'r hysbysiadau o dynnu enwebiad yn ôl yn unol â gofynion y datganiad yma a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn yr enwebiad.

Os bydd angen cymorth arnoch chi i anfon yr enwebiadau'n electronig, ffoniwch y Swyddog Canlyniadau ar:

01443 490100
E-bost: gwasanaethauetholiadau@rctcbc.gov.uk

Dyddiad: ddydd Iau, 31 Hydref 2024

**Andrew S Wilkins**
**Swyddog Canlyniadau**

Cyhoeddwyd ac argraffwyd gan y Swyddog Canlyniadau, 10-12 Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2BW